Maniffesto Meithrin Miliwn

Maniffesto Mudiad Meithrin ar gyfer Etholiad Cyffredinol Cymru 2021

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Nod Mudiad Meithrin yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg gan y gwyddom fod y blynyddoedd cynnar - amser i annog a chefnogi rhieni i gyflwyno a bod defnyddio'r Gymraeg - yn allweddol i gaffael iaith.

Egwyddorion Mudiad Meithrin

Mae Mudiad Meithrin yn credu fod gan bob plentyn hawl i ddarpariaeth gofal ac addysg gynnar o safon ac fod ganddynt hawl ymarferol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Credwn:

Tri Maes Blaenoriaeth sydd angen buddsoddiad yn ystod tymor Senedd 2021-26

1 Sicrhau darpariaeth gofal ac addysg gynnar o ansawdd

- Gweithio at un gyfundrefn genedlaethol gofal plant ac addysg gynnar o ran cyllido, arolygu ac ansawdd gan sicrhau fod rhaglenni trechu tlodi wedi eu hanelu at blant ar gael yn Gymraeg
- Buddsoddi yng nghynllun trochi 'Croesi'r Bont' a'i addasu i'w gynnig fel pecyn hyfforddiant i'r sector statudol cynradd
  - Sicrhau bod chwarae yn ganolog i ethos pob darpariaeth gan gydnabod bod chwarae i blant bach yn allweddol i'w datblygiad
  - Cefnogi'r sector i ddehongli a gwireddu amcanion Cwricwlwm Cymru 2022 gyda chefnogaeth wedi'i theilwra i'r sector nas gynhelir

2 Codi hyder, gwybodaeth a sgiliau o fewn y gweithlu blynyddoedd cynnar, y corff gwirfoddolwyr a rhieni/gofalwyr

- Parhau i fuddsoddi yng ngallu ieithyddol y gweithlu trwy gynllun Cymraeg Gwaith 'Camau'
- Sicrhau fframwaith prentisiaethau cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymwysterau lefelau 1 i 6
- Cefnogi Datblygiad Proffesiynol Parhaus y gweithlu blynyddoedd cynnar trwy hyfforddiant addas gan sicrhau cyfraniad ariannol o gronfeydd hyfforddi lleol a rhanbarthol gan wybod fod safon y sector yn dibynnu ar ddarpariaeth hyfforddiant a chymwysterau
- Dyfnhau gweithgarwch ym maes trosglwyddo iaith gan gefnogi rhieni a'r teulu estynedig trwy raglenni amrywiol fel 'Cymraeg i Blant', 'Clwb Cwtsh' a 'Cymraeg yn y Cartref'

3 Cynllunio darpariaeth gofal plant ac addysg gynnar sy'n creu'r galw am addysg Gymraeg gan gyfrannu at greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

- Agor 60 Cylch Meithrin newydd yn ystod tymor y Senedd gan barhau i gefnogi pob Cylch Meithrin i aros ar agor fel adnodd pwysig
- Gwireddu amcanion 'Prosiect 2050' Llywodraeth Cymru gan gydlynu gweithgareddau'r CSGAau gyda chorff goruchwylio cenedlaethol
- Sbarduno darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg gyda chyfraniad ariannol ychwanegol i leoliadau Cymraeg
- Darparu ar gyfer 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' gyda'r egwyddor sylfaenol o gydraddoldeb fel bod gan bob plentyn hawl i'r un gwasanaethau sylfaenol a chymorth a chefnogaeth ychwanegol i'r un safon
- Darparu'r Cynnig Gofal Plant (30 awr) i blant 2 flwydd oed ar gyfradd cyllido uwch er mwyn ystyried graddfa cyflogau staff, gan anelu at ehangu i blant 12 mis+ o 2026 ymlaen

Meithrin Miliwn Manifesto

Mudiad Meithrin's Manifesto for the Welsh General Elections 2021

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists

Mudiad Meithrin's aim is to give each young child in Wales the opportunity to take advantage of early years services and experiences through the medium of Welsh, as we know that the early years – a time for encouraging and supporting parents to introduce and use Welsh – are vital to the acquisition of language.

Mudiad Meithrin's Principles

Mudiad Meithrin believes that each child has the right to quality early care and education, and that they have a practical right to Welsh-medium provision.

Three Priority Areas which need investment during the Senedd's 2021-26 term

1 Ensuring the provision of quality early care and education.

- Work towards a national childcare and early years system in terms of funding, inspection and quality, ensuring that child-focused programs geared towards tackling poverty are available in Welsh
- Invest in the 'Croesi'r Bont' immersion scheme and adapt it so that it can be offered as a training scheme for the statutory primary sector
  - Ensure that play is central to the ethos of each and every setting, recognising that play amongst small children is key to their development
  - Support the sector to interpret and achieve the aims of the Welsh Curriculum 2022 with tailored support for the non-maintained sector

2 Building on the confidence, knowledge and skills of the early years workforce, its voluntary body and parents/carers.

- Continue to invest in the workforce's linguistic ability through the 'Camau' workplace Welsh scheme
- Ensure a Welsh-medium apprenticeship framework for qualifications levels 1 – 6
- Support the early years workforce's Continuous Professional Development with suitable training, ensuring a financial contribution from local and regional training funds, understanding that the quality of provision is dependent on the provision of training and qualifications
- Expand the activity in the field of language transference by supporting parents and the extended family through 'Cymraeg i Blant', 'Clwb Cwtsh' and 'Cymraeg yn y Cartref'

3 Planning childcare and early years provision, which generates demand for Welsh-medium education and contributes to the creation of a million Welsh speakers by 2050.

- Open 60 new Cylch Meithrin during the Senedd's term, continuing to support every Cylch Meithrin so that they can remain open as an important resource
- Realise the aims of the Welsh Government's 'Project 2050', coordinating WESP activity with a national supervisory body
- Stimulate the provision of Welsh-medium childcare with a financial uplift to Welsh-medium settings
- 'Additional Learning Needs' provision with the fundamental principle of equality that each child has the right to the same basic service and the need for additional and appropriate support to the same standard
- Provide the Childcare Offer (30 hours) to two year olds at a higher funding rate so as to consider staff wages, aiming to expand to children aged 12 months + from 2026 onwards